

Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol *Hawliau Darlledu Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad*

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'w bedwar argymhelliad.

Argymhelliad 1.

Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon symud Pencampwriaeth y Chwe Gwlad o fod yn ddigwyddiad Grŵp B i fod yn ddigwyddiad Grŵp A fel rhan o'r drefn digwyddiadau rhestredig o dan Ddeddf Darlledu 1996

Ymateb: Nid argymhelliad i Lywodraeth Cymru mo hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wastad wedi bod yn glir y dylai darllediadau o Bencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad barhau i fod ar gael yn ddi-dâl. Er ein bod yn cydnabod ei fod yn bwnc cymhleth a bod hawliau teledu yn rhan bwysig o incwm y gêm, ni ddylai fod ar draul amddifadu cynulleidfaoedd ac erydu sylfaen y gefnogaeth ar lawr gwlad i'r gamp yng Nghymru. Rydym yn cydnabod hefyd lle annatod ac unigryw rygbi a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad yn niwylliant a bywyd Cymru.

Argymhelliad 2.

Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon symud Pencampwriaeth y Chwe Gwlad o gategori digwyddiadau Grŵp B i gategori digwyddiadau Grŵp A fel rhan o'r drefn digwyddiadau rhestredig o dan Ddeddf Darlledu 1996.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU ar y mater hwn, yn fwyaf diweddar at Julia Lopez AS, Gweinidog y Cyfryngau, Twristiaeth a'r Diwydiannau Creadigol ar 11 Mawrth 2024 yn gofyn iddi adolygu digwyddiadau rhestredig a symud Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad o Grŵp B i Grŵp A. Cawsom ymateb gan y Gwir Anrhydeddus Stuart Andrew AS, y Gweinidog Chwaraeon, Gamblo a Chymdeithas Sifil a Julia Lopez AS, Gweinidog y Cyfryngau, Twristiaeth a'r Diwydiannau Creadigol ar 13 Mai. Roedd yr ymateb yn nodi nad oes gan Lywodraeth y DU gynlluniau ar hyn o bryd i adolygu'r rhestr. Nododd fod polisi chwaraeon wedi'i ddatganoli ac mai mater i Lywodraeth Cymru fydd gwerthuso a yw'r cydbwysedd yn gywir ar hyn o bryd rhwng gallu'r rheini sy'n meddu ar yr hawliau darlledu yng Nghymru i gynhyrchu digon o incwm i fuddsoddi mewn chwaraeon yng Nghymru, a chyfleoedd cefnogwyr chwaraeon Cymru i fwynhau'r campau hynny. Pe bai Llywodraeth Cymru yn rhoi argymhelliad i Lywodraeth y DU, byddai'n 'open to taking those considerations into account following any evaluation, in balance with any wider views, such as would be the case for events with pooled rights including

the Six Nations'. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi ateb y llythyr hwn gan ategu safbwynt Llywodraeth Cymru. Amgaeaf gopi ohono er eich gwybodaeth.

Argymhelliad 3.

Os bydd Pencampwriaeth y Chwe Gwlad yn cael ei darlledu ar blatfformau talu i wyllo, dylai Llywodraeth y DU gyflwyno mesurau i ddiogelu'r diwydiant lletygarwch, gan gynnwys cymal contractiol gorfodol sy'n caniatáu tanysgrifiadau talu i wyllo rhatach ar gyfer tafarndai a chlybiau â gwerth ardrethol islaw swm penodol. Dylid gwneud hyn yn dilyn ymgynghoriad â'r diwydiant lletygarwch i bennu'r dull mwyaf priodol.

Ymateb: Nid argymhelliad i Lywodraeth Cymru mo hwn.

Mae'r darlledu digwyddiadau chwaraeon fel Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad yn gyhoeddus mewn tafarndai a chlybiau yn dod ag arian mawr ei angen i'r sefydliadau hyn ac yn achubiaeth ariannol i lawer o glybiau chwaraeon yng Nghymru. Mae cael cefnogi'r tîm rygbi cenedlaethol yn y sefydliadau hwn yn ffordd bwysig hefyd o ddod â chymunedau ynghyd a chryfhau'n hunaniaeth genedlaethol.

Ond gall cost tanysgrifio i ddarllediadau ar wal dalu fod yn ddrud, yn enwedig o ystyried y problemau economaidd sy'n wynebu'r diwydiant lletygarwch oherwydd costau cynyddol a gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr.

Mae manylion contractau rhwng darlledwyr a threfnwyr cystadlaethau chwaraeon yn fater i'r partïon unigol ac y tu allan i'r rheoliadau darlledu arferol. Mae penderfyniadau ynghylch prisiau tanysgrifio yn cael eu gwneud yn ôl gwerth y farchnad. Fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd diwylliannol ac ariannol caniatáu i Bencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad gael ei darlledu mewn lleoliadau lletygarwch, rydym yn cytuno y dylai Llywodraeth y DU archwilio pob ysgogiad i wneud tanysgrifiadau darlledu mor fforddiadwy â phosibl i dafarndai a chlybiau ledled y wlad.

Argymhelliad 4.

Rhaid i Lywodraeth y DU gymryd camau i ddiogelu darllediad Cymraeg llawn o bencampwriaeth y Chwe Gwlad.

Ymateb: Nid argymhelliad i Lywodraeth Cymru mo hwn.

Mae Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad yn bwysig iawn i gynulleidfaoedd yng Nghymru, ac mae'n ddolen gyswllt ddiwylliannol a chymdeithasol bwyrus sy'n meithrin balchder ac undod cenedlaethol. Mae'n hanfodol bod cynulleidfaoedd yn gallu mwynhau'r twrnaint yn eu dewis iaith a bod y ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei diogelu ac ar gael yn rhwydd.

Mae gan y Bencampwriaeth ran hanfodol o ran hyrwyddo'r Gymraeg, yn enwedig mewn perthynas â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, un o dair thema strategol

Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg. Mae'r rhaglenni Cymraeg o Bencampwriaeth y Chwe Gwlad yn rhoi llwyfan hollbwysig ar gyfer cynnwys y Gymraeg yn y cyfryngau. Mae'r bencampwriaeth wedi ymwreiddio'n ddwfn ym mywyd diwylliannol Cymru ac mae'r defnydd o'r Gymraeg wrth ei darlledu yn atgyfnerthu lle'r iaith fel rhan hanfodol o'n hunaniaeth genedlaethol, tra'n cynnal ei pherthnasedd mewn cymdeithas fodern Gymreig. Mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn cynyddu cyfleoedd cynulleidfa ehangach i ymwneud â'r iaith ac yn annog ei defnydd ymhlith siaradwyr rhugl a newydd. I siaradwyr newydd, yn aml gall dilyn y gêm yn Gymraeg fod yn gam cyntaf wrth ei dysgu, gan ddarparu naratif haws ei dilyn sy'n gysylltiedig â hynt y gêm. Gellir trosglwyddo cyffro'r bencampwriaeth hefyd i leoliadau addysgol fel ffordd o ennyn diddordeb myfyrwyr.

Bydd amddiffyn y ddarpariaeth Gymraeg o Bencampwriaeth y Chwe Gwlad yn cyfrannu at ymdeimlad o gymuned a pherthyn, gan helpu i bontio gwahaniaethau ieithyddol trwy annog y di-Gymraeg i gofleidio'r iaith fel rhan o'u Hunaniaeth Gymreig gytun. Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru, waeth ble maen nhw ar eu taith ieithyddol. Mae rhoi cyfle i bawb ddod i gysylltiad â'r iaith yn anfon arwydd clir fod yr iaith yno i bwy bynnag sy'n dymuno ei chofleidio. Rhaid iddi fod ar gael yn rhwydd ac yn ddirwyst.